Yr Amgylchedd a Chynaliadwyedd
Rhifyn Un - Mehefin 2009

Llywodraeth Cynulliad Cymru
Welsh Assembly Government

Cymorth Pwrpasol Di-dâl i arbed arian a lleihau gwastraff!

Mae cwmni Cymru Country Chickens o Ynys Môn, sy'n rhan o'r VION Food Group, wedi llwyddo i sicrhau gostyngiad o 50% yn swm y dŵr mae'n ei ddefnyddio o ddydd i ddydd.

Mae'r safle modern, soffistigedig i brosesu cywion ieir yn cyflogi dros 300 o bobl. Mae'n cyflenwi busnesau amlwg sy'n gwneud prydau parod ar gyfer nifer o siopau adnabyddus ledled Prydain.

Pan ddewisodd y ffatri newid patrwm shifftiau'r gweithwyr, gwelwyd gostyngiad sylweddol yn nifer yr adar oedd yn cael eu prosesu ond, gwaetha'r modd, ni fu gostyngiad yn swm y dŵr a ddefnyddiwyd. Yn wir, roedd yn defnyddio 18% yn fwy o ddŵr.

Gyda chymorth Envirowise, mae tîm VION yn Llangefni wedi llwyddo i wella'r sefyllfa'n sylweddol. Yn 2006, roedd y ffatri'n defnyddio dros filiwn o litrau o ddŵr ar gyfartaledd ar ddyddiau cynhyrchu. Erbyn hyn, llwyddwyd i arbed cymaint â 50% o hynny trwy wneud newidiadau syml am gost isel neu heb gost o gwbl.

Os yw'ch busnes chi'n cynhyrchu cryn dipyn o wastraff soled, gallech chithau gael cymorth pwrpasol am ddim gan Envirowise hefyd. Gallai cyngor arbenigol gan ein rhwydwaith o reolwyr rhanbarthol eich helpu i ddefnyddio adnoddau'n fwy effeithiol ac anfon llai o wastraff i safleoedd tirlenwi.

Mae'r gwasanaeth yn ddi-dâl, yn gyfrinachol ac yn annibynnol ac mae'n cynnwys ymweliadau safle, ymgynghori arbenigol, cynlluniau gweithredu a gwaith monitro. I gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch â Jennifer.collins@envirowise.gov.uk

5 peth na wyddech am NetRegs.gov.uk

1) Yn 2008, defnyddiwyd gwefan NetRegs gan 449,205 o wahanol ymwelwyr. Mae 93% o'r busnesau sy'n defnyddio NetRegs yn dweud bod y wefan yn offeryn busnes da neu ragorol[1].
2) Hyd yma, mae 21,460 o fusnesau wedi cofrestru i gael negeseuon e-bost misol gan NetRegs.gov.uk. Mae'r busnesau hyn yn cael gwybodaeth gan NetRegs am newidiadau cyfreithiol sy'n ymwneud â'r amgylchedd.
3) Trwy ddefnyddio gwefan NetRegs, amcangyfrifir bod BBaChau yn y DU yn arbed £58 miliwn y flwyddyn, sef dros £2600 i bob busnes ar gyfartaledd[2].
4) Yn 2008, defnyddiwyd Cyfeiriadur Gwastraff NetRegs 397,042 o weithiau – mae hynny'n golygu bod busnesau yng Nghymru a Lloegr wedi gwneud bron 400,000 ymgais i gael gwared o'u gwastraff mewn ffordd gyfreithlon.
5) Mae nifer o ddyfeisiau i helpu busnesau yn adrannau e-ddysgu a phecynnau cymorth gwefan NetRegs. Cofiwch eu defnyddio. Ewch i www.netregs.gov.uk i gael canllawiau am reoliadau amgylcheddol mewn iaith ddealladwy.

1 Seilir ar 221 o ymatebion i arolwg o blith busnesau ar y wefan.
2 Arolwg busnes annibynnol gan Eftec.

ERDF
Llywodraeth Cynulliad Cymru
Welsh Assembly Government
Ewrop & Chymru: Buddsoddi yn eich Dyfodol
Cronfa Datblygu Rhanbarthol Ewrop
Europe & Wales: Investing in your Future
European Regional Development Fund

Cymorth Hyblyg i Fusnes
Cychwyn. Tyfu. Llwyddo.
Flexible Support for Business
Start. Grow. Prosper.

Lansio pecyn cymorth KPI ar gyfer y Cod Cartrefi Cynaliadwy

Mae'n bleser gan Adeiladu Arbenigrwydd yng Nghymru lansio pecyn cymorth newydd i helpu prosiectau i ddewis a defnyddio Dangosyddion Perfformiad Allweddol (KPIs) yn unol â'r Cod Cartrefi Cynaliadwy.

Mae Pecyn Cymorth KPIs Adeiladu Arbenigrwydd ar gyfer y Cod Cartrefi Cynaliadwy, a ddatblygwyd ar y cyd â BRE, yn cynnig ffordd syml o gael system i gasglu data a mesur perfformiad prosiectau. Mae'n defnyddio Microsoft Excel ® 2003 a dim ond ychydig o wybodaeth y mae'n rhaid ei nodi er mwyn llunio graffiau'n dangos perfformiad o'i gymharu â'r targedau ac â data KPI y DU.

Gellir defnyddio'r offeryn i fesur KPIs fel faint o ddŵr ac ynni a ddefnyddir, faint o wastraff sydd ar y safle a symudiadau cerbydau masnachol. Mae'r Pecyn Cymorth yn gallu trosi ffigurau fel faint o ynni a ddefnyddir i faint o CO^2 sy'n cael ei allyrru. Trefnwyd y Pecyn ar gyfer prosiectau sy'n para hyd at 24 mis. Cewch ragor o wybodaeth ar wefan Adeiladu Arbenigrwydd.

Cymorth Cyfalaf i Ailbrosesu Gwastraff yng Nghymru

Mae WRAP (Waste and Resources Action Programme/Rhaglen Gweithredu'r Cynllun Gwastraff ac Adnoddau) a Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi lansio cylch arall o'u rhaglen grantiau cyfalaf, gyda'r nod o fynd i'r afael â her gwastraff cwmnïau yng Nghymru.

Gall y rhaglen helpu i ddatblygu isadeiledd newydd ar gyfer ailbrosesu neu wella'r system bresennol, a chynigir cyllid o hyd at 30 % ar gyfer prosiectau ym mhob rhan o Gymru. Yn dibynnu ar ganlyniad cais am Gyllid Cydgyfeirio, mae'n bosib y bydd rhagor o gymorth ar gael yn yr Ardal Gydgyfeirio. Mae grantiau ar gael ar gyfer tair ffrwd wahanol o ddefnyddiau:

- Gwastraff Bwyd trwy Dreulio Anaerobig (AD)
- Isadeiledd Ailgylchu Gwastraff Adeiladu
- Plastigau Cymysg

Dyddiad cau ar gyfer ceisiadau: 12.30pm dydd Iau 30 Gorffennaf 2009. I gael gwybod mwy, ewch i wefan WRAP.



Syniadau ffres

Mae'r Ganolfan Ecoddylunio yn rhoi busnesau Cymru ar ben y ffordd.

Sefydliad ymchwil cymwysedig yw'r Ganolfan Ecoddylunio ac mae'n canolbwyntio ar hyrwyddo ecoddylunio effeithiol. Un o brif amcanion y Ganolfan yw ei gwneud yn haws i ddiwydiant elwa ar ecoddylunio.

Bu'n cydweithio â chwmnïau fel The Knobbly Carrot Organic Food Company, Global Laser, Orangebox a G24 Innovations i gynnwys ecoddylunio a meddwl am gylch cyfan oes yn eu harferion gweithio. Mae Global Laser ac Orangebox newydd lansio nwyddau wedi'u hecoddylunio. Mae cydweithio â busnesau fel hyn wedi cadarnhau neges graidd y Ganolfan bod "ecoddylunio yn golygu dylunio da, syml ac arferion busnes da".

Er mwyn hybu ei gwaith masnachol a'i gwaith trosglwyddo gwybodaeth, mae'r Ganolfan wedi penodi Dr Sohail Hajatdoost i fod yn Bennaeth Datblygu Busnes. Cemegydd siartredig yw Sohail ac mae ganddo dros 15 mlynedd o weithio mewn swyddi uchel ym myd diwydiant. Bydd yn mynd ati i feithrin rhwydweithio mewn sectorau cynhyrchu gwerth-uchel, i ddatblygu rhaglenni hyfforddi arbenigol ac i gynllunio a gweithredu nifer o fentrau rhwng y sector cyhoeddus a'r sector preifat.

Os hoffech ragor o wybodaeth am brosiectau'r Ganolfan Ecoddylunio, ewch i: www.edcw.org. Os hoffech dderbyn gwybodaeth am brosiectau'r Ganolfan o hyn ymlaen, anfonwch eich manylion i info@edcw.org

Cymru'n pennu targed ailgylchu o 70%

Bydd o leiaf 70% o'r holl wastraff a gynhyrchir yng Nghymru'n cael ei ailgylchu erbyn 2025 o dan ganllawiau newydd uchelgeisiol a gyhoeddwyd yr wythnos hon.

Mae'r targedau'n rhan o strategaeth wastraff newydd Llywodraeth Cynulliad Cymru sy'n nodi sut y mae Cymru'n bwriadu mynd i'r afael â'r mater dros y pedwar degawd nesaf.

Ym marn Jane Davidson, y Gweinidog dros yr Amgylchedd, Cynaliadwyedd a Thai yn y Cynulliad, dyma'r cynllun ailgylchu 'mwyaf uchelgeisiol' gan unrhyw un o weinyddiaethau'r DU.

Mae manylion ailgylchu cychwynnol ar gyfer tri chwarter cyntaf 2008-2009 yn dangos bod Cymru wedi ailgylchu 36 % o'i gwastraff trefol – cynnydd o 4 % ar y ffigwr yn 2007/08 sef 32 %.

Ond mae'r targedau sydd newydd eu cyhoeddi'n golygu y byddai angen dyblu hyn, bron, i gyrraedd targed o 70 % ar gyfer gwastraff trefol a domestig.

Mae Llywodraeth y Cynulliad wedi pennu targed uchel o 90 % ar gyfer ailgylchu, adfer ac ailddefnyddio gwastraff nad yw'n beryglus o'r diwydiant adeiladu.

Bydd y ddau darged hyn yn cyfrannu at y nod hirdymor o wneud Cymru'n genedl 'dim gwastraff' erbyn 2050 a dod ag ôl troed ecolegeol y wlad yn nes at gyfateb i swm yr adnoddau sydd ar gael – sef 1.8 hectar byd-eang yr un ar gyfartaledd.

Ymrwymiad yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol

Mae'r Ymddiriedolaeth Genedlaethol wedi ymrwymo i sicrhau gostyngiad o 20% mewn allyriadau carbon ledled Cymru dros y tair blynedd nesaf gyda chymorth yr Ymddiriedolaeth Garbon.

Castell y Waun ger Wrecsam fydd eu prosiect arbed ynni mawr cyntaf a'r nod yw sicrhau gostyngiad o 60 % yn yr allyriadau carbon yno.

Codwyd Castell y Waun yn y 13eg ganrif ac mae gwaith mawr yn cael ei wneud yno fel rhan o nod yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol o ostwng allyriadau carbon trwy wneud eu hadeiladau'n fwy ynni-effeithlon.

Ar gyngor yr Ymddiriedolaeth Garbon, bydd y newidiadau'n cynnwys newid y system wresogi i fwyler sy'n llosgi peledi coed erbyn yr haf nesaf; gosod paneli solar ar rannau lleiaf amlwg waliau'r castell a gosod 1000 metr sgwâr o ddefnydd ynysu cywarch – er mwyn rheoli'r gwres a'r lleithedd.

Roedd yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol yn awyddus i elwa ar arbenigedd yr Ymddiriedolaeth Garbon o ran gostwng allyriadau carbon yn y safleoedd sy'n defnyddio fwyaf o ynni, codi ymwybyddiaeth o'r materion allweddol a rhannu arferion gorau rhwng eu prosiectau yng Nghymru.

03000 6 03000

www.cymorth-busnes-cymru.gov.uk
www.business-support-wales.gov.uk